Alleston Solar Farm: Statutory Consultation

Following early engagement on our emerging proposals for Alleston Solar Farm last year, and the completion of site investigations and surveys, we are carrying out the statutory consultation on our detailed proposals from 8 October – 19 November 2024.

We've made some important changes since the early engagement, including:

- → **Removing areas of solar panels from fields nearest Lower Lamphey Road and around the Grade II listed farmhouse.**
- → **Confirming the route for diverting the existing public right of way across Alleston Farm.**
- → **Enhancement of biodiversity areas throughout Alleston Farm.**
- → **Creation of an orchard to enhance the heritage setting of the site.**
- → **Carried out studies and surveys to allow us to determine the least impactful transport route.**

Full details of our Draft Planning Application for Alleston Solar Farm are now available online at alleston-solar.co.uk and the team will be available to discuss the proposals at our upcoming exhibitions in Pembroke and Lamphey.

Solar power is a crucial technology to help overcome our energy security and climate challenges. If consented, Alleston Solar Farm would contribute to the delivery of the UK, Welsh Government and Pembrokeshire County Council policy objectives, diversify the energy mix, and facilitate the transition to low carbon energy, whilst decreasing dependency on fossil fuels.

We look forward to hearing your thoughts on our detailed proposals.

With best wishes,
Gui Zandomeneghi and Consuela Beauchamp-Davies
Principal Project Manager and Project Developer UK

FIND OUT MORE:

COMMUNITY EVENTS

Tuesday, 22 October 2024 from 1pm to 6pm at Pembroke Town Hall, Main Street SA71 4JS

Wednesday, 23 October 2024 from 12pm to 4:30pm at Lamphey Village Hall SA71 5PB

ONLINE EXHIBITION

All the information that will be available at the exhibitions can be viewed on the project website, along with the Draft Planning Application, but we encourage you to attend our exhibitions to chat through the proposals with members of the project team.

If you require assistance to attend, please do not hesitate to contact us.

Site location plan



Project summary

30 MW
Approximately 30MW estimated capacity

14,000
More than 14,000 estimated homes powered*

Creation of a **NEW ORCHARD** to enhance local biodiversity

Rerouted **PUBLIC RIGHT OF WAY**

£480,000 COMMUNITY BENEFIT FUND over the life of the project

If consented, construction of the development will take approximately **9 MONTHS**

** Based on Welsh average household consumption of 3,032kWh per year (DESNZ, Jan 2024)*

The proposals

SOLAR PANELS: These will be set on aluminium or steel frameworks a maximum of 3.4m from the ground. They will be connected to each other and to the substation via underground cables.

GRID CONNECTION: An onsite grid connection to existing powerlines means no additional cables will be needed outside the site boundary.

PUBLIC RIGHT OF WAY: The existing public right of way will be moved west, to run alongside Alleston Wood.

NEW ORCHARD: A new orchard will be created around Alleston Farm House, enhancing the character of the Grade II listed building. The fruit trees to be planted here will provide important resources for bees and other pollinators.

CONSTRUCTION: Construction access will be via Lower Lamphey Road from Lamphey. A detailed transport assessment found construction access from Pembroke would not be possible. A construction management plan will be put in place with measures to minimise disruption, including reducing speed limits for our vehicles.

PROJECT LIFECYCLE: Alleston Solar Farm has an expected lifespan of 40 years. At the end of the project, the solar farm will be decommissioned, and the land can be returned to agricultural use.

Have your say

Please let us know your thoughts on our detailed proposals by:

- Completing the form on the website: alleston-solar.co.uk
- Returning the freepost reply form
- Emailing: UKProjects@statkraft.com
- Calling: **0800 772 0668**

Please let us have your feedback by midnight on **19 November 2024**. A response to issues raised during the statutory consultation will be provided in the Pre-Application Consultation Report, which will be submitted as part of the DNS application.

Site layout plan

Early engagement: feedback and response

Thank you to everyone who took the time to provide feedback on our initial designs. We have taken your feedback on board, helping us to develop the best possible project.

We are pleased to have received a great deal of positive feedback, with 57% of respondents supporting or strongly supporting our initial proposals for a solar farm at Alleston Farm. Other feedback has helped us to make important decisions on siting of solar panels, creation of biodiversity areas and how we can minimise traffic impact during project construction.

We look forward to continuing conversations about how we can maximise the benefits to the local community, which were started during the previous round of consultation.

A copy of the Early Engagement Report is available to view in the **Project Documents** page on the website.

Statkraft

Planning process

As Alleston Solar Farm will have an installed generating capacity of more than 10MW of electricity it is defined as a Development of National Significance (DNS). This means the planning application will be submitted to Planning Environment Decisions Wales (PEDW) and considered by an Inspector, with the final decision made by Welsh Ministers.

During consultation upon the Draft Planning Application you will have an opportunity to review and comment on the final proposals.

INDICATIVE TIMELINE

Autumn/Winter 2023
Early engagement/community consultation on proposals and environmental scoping submission.

Winter 2023/Spring 2024
Site investigations and studies to inform the final proposals.

Autumn 2024
Statutory community consultation on Draft Planning Application.

Winter 2024/2025
Submission of Planning Application to Planning and Environmental Decisions Wales (PEDW).

Winter 2025
Anticipated recommendation by PEDW and decision by Welsh Ministers.

You can find out more about our projects and the way we work at **www.statkraft.co.uk**

Statkraft

Community

Statkraft is committed to working closely with the local community to bring long term value and deliver a project that can be considered a local asset.

We want to hear what you think as we finalise the plans and explore further options to maximise opportunities and benefits.

Community Benefit Fund

Alleston Solar Farm will provide a £480,000 community benefit fund over the 40 year lifespan of the project.

This fund would be used to support projects and initiatives in Pembroke and Lamphey that are working to make a difference for residents on issues like education, energy efficiency and environmental improvements as well as community facilities and amenities.

If you have any suggestions of local projects that might benefit from the fund, or thoughts on how the fund should be managed, please let us know.

Community Ownership

We are looking into community ownership opportunities for Alleston Solar Farm and are interested in hearing from local community groups/ organisations that would be interested in exploring this further.

Please visit our website to find out more: alleston-solar.co.uk

MEET THE PROJECT LEADERS

Gui Zandomeneghi and Consuela Beauchamp-Davies are supported by a team of specialists who are happy to receive your feedback and answer questions.

Local Suppliers

We have a track record of increasing awareness of opportunities during the construction phase of our projects. Visit our website to sign up to our supplier register.

Visit our project website: alleston-solar.co.uk

Fferm Solar Alleston: Ymgynghoriad Statudol

Yn dilyn ymgysylltu cynnar ar ein cynigion sydd yn dod i'r amlwg ar gyfer Fferm Solar Alleston y llynedd, a chwblhau ymchwiliadau ac arolygon safle, rydym yn cynnal yr ymgynghoriad statudol ar ein cynigion manwl rhwng 8 Hydref a 19 Tachwedd 2024.

Rydym wedi gwneud rhai newidiadau pwysig ers yr ymgysylltu cynnar, gan gynnwys:

- → **Symud mannau paneli solar o'r caeau agosaf at Heol Llandyfái Isaf ac o amgylch y ffermdy rhestredig Gradd II.**
- → **Cadarnhau'r llwybr ar gyfer dargyfeirio'r hawl dramwy gyhoeddus bresennol ar draws Fferm Alleston.**
- → **Gwella ardaloedd bioamrywiaeth ledled Fferm Alleston.**
- → **Creu perllan i wella gosodiad treftadaeth y safle.**
- → **Cynnal astudiaethau ac arolygon i'n galluogi i bennu'r llwybr trafnidiaeth sy'n cael yr effaith leiaf.**

Mae manylion llawn ein Cais Cynllunio Drafft ar gyfer Fferm Solar Alleston bellach ar gael ar-lein yn alleston-solar.co.uk a bydd y tîm ar gael i drafod y cynigion yn ein harddangosfeydd sydd ar ddod ym Mhenfro a Llandyfái.

Mae ynni solar yn dechnoleg hanfodol i helpu i oresgyn ein heriau diogelwch ynni a hinsawdd. Pe byddai Fferm Solar Alleston yn cael caniatâd, byddai'n cyfrannu at gyflawni amcanion polisi'r DU, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro, yn arallgyfeirio'r amrywiaeth ynni, ac yn hwyluso'r newid i ynni carbon isel, wrth leihau dibyniaeth ar danwydd ffosil.

Edrychwn ymlaen at glywed eich barn ar ein cynigion manwl.

Cofion gorau,
Gui Zandomeneghi a Consuela Beauchamp-Davies
Prif Reolwr Prosiectau a Datblygwr Prosiectau'r DU

DYSGU RHAGOR:

DIGWYDDIADAU CYMUNEDOL

Dydd Mawrth, 22 Hydref 2024 rhwng 1pm a 6pm yn Neuadd y Dref Penfro, Stryd Fawr SA71 4JS

Dydd Mercher, 23 Hydref 2024 rhwng 12pm a 4:30pm yn Neuadd Bentref Llandyfái SA71 5PB

ARDDANGOSFA AR-LEIN

Gellir gweld yr holl wybodaeth a fydd ar gael yn yr arddangosfeydd ar wefan y prosiect, ynghyd â'r Cais Cynllunio Drafft, ond rydym yn eich annog i fynychu ein harddangosfeydd i sgwrsio am y cynigion gydag aelodau o dîm y prosiect.

Os oes angen cymorth arnoch er mwyn dod, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Cynllun lleoliad y safle



Crynodeb o'r prosiect

30 MW
Capasiti amcangyfrifedig o ryw 30MW

14,000
Amcangyfrifir y bydd tua 14,000 o gartrefi yn cael eu pweru*

Creu **PERLLAN NEWYDD**
i wella bioamrywiaeth leol

Ailgyfeirio
HAWL DRAMWY GYHOEDDUS

CRONFA BUDDIANT CYMUNEDOL O
£480,000
dros oes y prosiect

Os rhoddir caniatâd, bydd adeiladu'r datblygiad yn cymryd tua **9 MIS**

** Yn seiliedig ar ddefnydd cyfartalog cartrefi Cymru o 3,032kWh y flwyddyn (DESNZ, Ionawr 2024)*

Y cynigion

PANELI SOLAR: Bydd y rhain yn cael eu gosod ar fframweithiau alwminiwm neu ddur hyd at 3.4m o'r ddaear. Byddant yn cael eu cysylltu â'i gilydd a'r is-orsaf trwy geblau tanddaearol.

CYSYLLTIAD GRID: Mae cysylltiad grid ar y safle â llinellau pŵer presennol yn golygu na fydd angen ceblau ychwanegol y tu allan i ffin y safle.

HAWL DRAMWY GYHOEDDUS: Bydd yr hawl dramwy gyhoeddus bresennol yn cael ei symud i'r gorllewin, i redeg ochr yn ochr â Choed Alleston.

PERLLAN NEWYDD: Bydd perllan newydd yn cael ei chreu o amgylch Tŷ Fferm Alleston, gan wella cymeriad yr adeilad rhestredig Gradd II. Bydd y coed ffrwythau sydd i'w plannu yma'n darparu adnoddau pwysig i wenyn a pheillwyr eraill.

ADEILADU: Bydd mynediad adeiladu ar hyd Heol Llandyfái Isaf o Landyfái. Canfu asesiad trafnidiaeth manwl na fyddai mynediad adeiladu o Benfro yn bosibl. Bydd cynllun rheoli adeiladu yn cael ei roi ar waith gyda mesurau i leihau aflonyddwch, gan cynnwys cyfyngiadau cyflymder is ar gyfer ein cerbydau.

CYLCH OES Y PROSIECT: Mae gan Fferm Solar Alleston oes ddisgwyliedig o 40 mlynedd. Ar ddiwedd y prosiect, bydd y fferm solar yn cael ei datgomisiynu, a gellir dychwelyd y tir i ddefnydd amaethyddol.

Dweud eich dweud

Rhowch eich barn i ni ar ein cynigion manwl trwy:

Lenwi'r ffurflen ar y wefan:
alleston-solar.co.uk

Dychwelyd y ffurflen ateb rhadbost

E-bostio:
UKProjects@statkraft.com

Ffonio:
0800 772 0668

Gadewch i ni gael eich adborth erbyn hanner nos ar **19 Tachwedd 2024**. Bydd ymateb i faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn cael ei darparu yn yr Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio a gaiff ei gyflwyno yn rhan o'r cais am DNS.

Cynllun gosodiad y safle

Ymgysylltu cynnar: adborth ac ymateb

Diolch i bawb a gymerodd yr amser i roi adborth ar ein dyluniadau cychwynnol. Rydym wedi ystyried eich adborth, gan ein helpu i ddatblygu'r prosiect gorau posibl.

Rydym yn falch ein bod wedi cael llawer iawn o adborth cadarnhaol, gyda 57% o'r ymatebwyr yn cefnogi neu'n cefnogi'n gryf ein cynigion cychwynnol ar gyfer fferm solar yn Fferm Alleston. Mae adborth arall wedi ein helpu i wneud penderfyniadau pwysig ar leoli paneli solar, creu ardaloedd bioamrywiaeth a sut y gallwn ni leihau effaith traffig yn ystod gwaith adeiladu'r prosiect.

Edrychwn ymlaen at barhau â sgyrsiau ynghylch sut y gallwn ni sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r gymuned leol, a ddechreuwyd yn ystod y cylch ymgynghori blaenorol.

Mae copi o'r Adroddiad Ymgysylltu Cynnar ar gael i'w weld ar y dudalen **Dogfennau Prosiect** ar y wefan.

Statkraft

Y broses gynllunio

Gan y bydd gan Fferm Solar Alleston gapasiti cynhyrchu gosodedig o fwy na 10MW o drydan fe'i diffinnir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Golyga hyn y bydd y cais cynllunio yn cael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) ac yn cael ei ystyried gan Arolygwr, a'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

Yn ystod ymgynghoriad ar y Cais Cynllunio Drafft byddwch yn cael cyfle i adolygu a rhoi sylwadau ar y cynigion terfynol.

AMSERLEN DDANGOSOL

Hydref/Gaeaf 2023
Ymgynghoriad cymunedol/ ymgysylltu cynnar ar gynigion a chyflwyniad cwmpasu amgylcheddol.

Gaeaf 2023/Gwanwyn 2024
Ymchwiliadau ac astudiaethau safle i lywio'r cynigion terfynol.

Hydref 2024
Ymgynghoriad cymunedol statudol ar y Cais Cynllunio Drafft.

Gaeaf 2024/2025
Cyflwyno cais cynllunio i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW).

Gaeaf 2025
Argymhelliad a ragwelir gan PEDW a phenderfyniad gan Weinidogion Cymru.

Gallwch chi ddysgu rhagor am ein prosiectau a'r ffordd yr ydym yn gweithio yn **www.statkraft.co.uk**

Statkraft

Cymuned

Mae Statkraft wedi ymrwymo i gydweithio'n agos â'r gymuned leol i ddod â gwerth hirdymor a chyflawni prosiect y gellir ei ystyried yn ased lleol.

Rydym eisiau clywed eich barn wrth i ni gwblhau'r cynlluniau ac archwilio opsiynau pellach i gynyddu cyfleoedd a buddion.

Cronfa Budd Cymunedol

Bydd Fferm Solar Alleston yn darparu cronfa budd cymunedol o tua £480,000 dros oes o 40 mlynedd y prosiect.

Byddai'r gronfa hon yn cael ei defnyddio i gefnogi prosiectau a mentrau ym Mhenfro a Llandyfái sy'n gweithio i wneud gwahaniaeth i drigolion ar faterion megis addysg, effeithlonrwydd ynni a gwelliannau amgylcheddol yn ogystal â chyfleusterau ac amwynderau cymunedol.

Os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am brosiectau lleol a allai elwa o'r gronfa, neu syniadau ar sut y dylid rheoli'r gronfa, rhowch wybod i ni.

Perchnogaeth Gymunedol

Rydym yn edrych ar gyfleoedd perchnogaeth gymunedol i Fferm Solar Alleston ac mae gennym ddiddordeb mewn clywed gan grwpiau/mudiadau cymunedol lleol y byddai ganddyn nhw ddiddordeb mewn archwilio hyn ymhellach.

Ewch i'n wefan i ddysgu rhagor:
alleston-solar.co.uk

CWRDD AG ARWEINWYR Y PROSIECT

Cefnogir Gui Zandomeneghi a Consuela Beauchamp-Davies gan dîm o arbenigwyr a all dderbyn eich adborth ac ateb cwestiynau.

Cyflenwyr Lleol

Mae gennym hanes da o gynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd yn ystod cyfnod adeiladu ein prosiectau. Ewch i'n gwefan i gofrestru ar ein cofrestr cyflenwyr.

Ewch i wefan y prosiect: alleston-solar.co.uk